Ysgol Gynradd Melin Gruffydd

Medi 2005 September

Cylchlythyr

www.ygmg.com

Datblygu'r buarth-Y Cam Sylfaen

Un o brif dargedau'r ysgol eleni yw datblygu buarth presennol y Derbyn fel buarth ysgogol a heriol, yn bennaf ar gyfer disgyblion y Cam Sylfaen h.y. y Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ond a fydd hefyd yn cynnwys rhai gweithgareddau penodol ar gyfer y disgyblion hŷn. Rydym eisoes wedi ymestyn y buarth a'r cam nesaf yw creu cynllun o'r buarth wedi ei rannu yn ardaloedd penodol o ran amcanion dysgu. Yr ardaloedd hynny fydd-

- Ardal y synhwyrau
- Ardal dawel
- Ardal adeiladu
- Ardal darganfod
- Ardal gweithgareddau dychmygol
- Ardal gweithgareddau corfforol

Rydym wedi cynnal nifer o gyfarfodydd o fewn yr ysgol ac wedi trafod y gwaith gyda swyddogion y sir. Rydym oll yn gyffrous wrth ystyried y datblygiad newydd hwn ym Melin Gruffydd, datblygiad a fydd yn hynod o fuddiol i'n disgyblion presennol ac i'n disgyblion yn y dyfodol.

Gan fod hwn yn brosiect mor fawr, rydym am sefydlu gweithgor a fydd yn cynnwys staff a rhieni, i lywio'r gwaith. Os hoffech gyfrannu mewn unrhyw ffordd i'r datblygiad yma yna cwblhewch y darn isod a'i ddychwelyd i'r ysgol.

Enw _____

Rhiant _____

Rhif ffôn _____

Hoffwn gynorthwyo trwy (ticiwch)

- Helpu i godi arian
- Helpu i nodi gwariant
- Drefnu
- Adeiladu/gwneud gwaith saer/defnyddio peiriannu ac ati
- Arddio
- Blannu
- Ddylunio a gwaith Celf

Diolch am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at brosiect llwyddiannus a fydd yn creu amgylchedd ddysgu arbennig i'ch plant.

Mr. Illtud James